# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canolfan Gofal Awel y Môr**

**Canolfan Gofal Awel y Môr**
**Brynafon Road, Gorseinon**
**Abertawe**
**SA4 4YF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Canolfan Gofal Awel y Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 58 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Chwefror 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl sy'n byw yn Awel y Môr a'u perthnasau eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal a'r cymorth a roddir. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref fod safon y gofal a ddarperir yn y cartref yn uchel iawn, a bod y staff yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn brydlon. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y tîm rheoli yn eu cefnogi'n ardderchog. Mae'r prosesau cynllunio gofal yn gadarn ac yn drylwyr. Ceir lefelau staffio da iawn sy'n cyfateb i'r hyn a nodir yn y datganiad o ddiben. Mae tîm o weithwyr gofal a nyrsys medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y cartref. Ceir tîm rheoli ymrwymedig ac ymroddedig a phrosesau sicrhau ansawdd effeithiol iawn ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth.

Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n ardderchog ac mae wedi'i addurno i safon uchel iawn. Mae tir y cartref yn cael ei gadw'n daclus ac mae modd i'r bobl ei ddefnyddio'n ddiogel. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol a gwerth chweil wedi'u trefnu y gall y bobl gymryd rhan ynddynt. Mae gweithgareddau therapiwtig yn cael eu cynnal sydd o fudd ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol y bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod amrywiaeth a dewis da iawn o fwyd o ansawdd.

Mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r staff yn deall pwysigrwydd diogelu a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r adeilad yn ddiogel a chaiff pob mynedfa ac allanfa eu cadw ar glo, ac mae larwm wedi'i osod ar yr adeilad. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith ac mae'r cartref yn lân, yn drefnus ac yn daclus.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais pwysig yn y gwasanaeth ac ymgynghorir â nhw am yr holl agweddau ar eu gofal lle bynnag y bo'n bosibl. Cyn symud i mewn, cynhelir asesiadau gwasanaeth gyda'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion yn llawn. Mae'r staff a'r rheolwyr yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i'r gwaith y maent yn ei wneud. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth a roddir a dull gofalgar y staff. Dywedodd perthnasau wrthym fod y cyfathrebu â'r gwasanaeth a'r cyfathrebu gan y gwasanaeth yn dda iawn. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Mae adolygiadau o gynlluniau personol rheolaidd yn cael eu cynnal ac mae'r perthnasau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau pwysig yn y gwasanaeth ac ymgynghorir â nhw yn rheolaidd am eu dewisiadau. Mae gan y bobl fywydau cymdeithasol prysur a chyson. Cynhelir gweithgareddau therapiwtig a buddiol ardderchog sy'n datblygu ac yn cynnal llesiant corfforol a meddyliol y bobl yn rheolaidd. Caiff y gwasanaeth ei ystyried i fod wrth wraidd y gymuned leol. Mae'r gwasanaeth wedi meithrin cydberthnasau llwyddiannus dros ben ag ysgolion lleol a lleoedd eraill er mwyn sicrhau a hwyluso gweithgareddau y tu mewn a thu allan i'r cartref.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sydd wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol i safon uchel er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cyfleusterau yn ardderchog, a gall y bobl dreulio amser mewn ardaloedd cymunedol neu mewn ardaloedd awyr agored diogel sy'n apelgar, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn gweithiau ailaddurno ac adnewyddu sylweddol yn ddiweddar. Mae ardaloedd therapiwtig penodol i ddatblygu llesiant corfforol a meddyliol y bobl. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch cadarn a thrylwyr ar waith sy'n cydymffurfio'n llawn â diogelwch yr adeilad. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus ym mhob rhan ohono.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r holl staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac mae'r rhai y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Croesewir ymwelwyr yn llawn ac maent yn cael defnyddio'r cyfleusterau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu effeithiol iawn ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol yn ymweld yn rheolaidd ac mae'r holl ddogfennau a welsom o ganlyniad yn hynod fanwl a thrylwyr. Mae'r staff yn cael hyfforddiant craidd ac arbenigol ar amrywiaeth eang o bynciau yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd wedi'u cynllunio. Mae'r holl adborth gan y staff a gasglwyd fel rhan o'r arolygiad yn hynod gadarnhaol am y diwylliant a'r cymorth rheoli a ddarperir.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon ardderchog yn Awel y Môr. Gwnaethom siarad â phedwar person a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, un perthynas a dau weithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld yn ystod yr arolygiad. Dywedodd un person wrthym; *"brilliant here 11 out of 10. All staff are very kind and caring. Nothing is too much trouble for them. Also brilliant entertainment and activities. No complaints or concerns whatsoever".* Dywedodd un perthynas; *It's excellent here and very clean. Very nice staff. Managers are also very nice and supportive, they keep in touch regularly and let me know what is going on. I could not provide better care myself"*. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym; *"Always plenty of staff around. Good communication from and with staff. Staff will act on any recommendations we make. Residents are very happy and well cared for here"*. Gwelwyd rhyngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl drwy gydol yr arolygiad.

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu dogfennu'n glir mewn cynllun cymorth personol ar-lein manwl a thrylwyr, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd y sampl o ffeiliau cymorth personol a welwyd yn cynnwys gwybodaeth bersonol gadarn iawn am hoff bethau a chas bethau, anghenion gofal a chymorth a risgiau. Mae'r dirprwy reolwr yn cwblhau adroddiadau ar wahân sy'n nodi cynnydd y bobl a'u canlyniadau. Mae gan y darparwr broses 'preswylydd y dydd' lle mae'r bobl yn cael eu cynnwys ac ymgynghorir â nhw am y gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr bob mis. Ceir gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal iechyd fel gofal briwiau pwyso ac asesiadau risg penodol i'r staff eu dilyn. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau effeithiol iawn â'r feddygfa leol a'r gwasanaethau cymunedol lle y bo'n briodol. Mae gweithdrefnau cyn derbyn trylwyr a chadarn ar waith er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.

Caiff y bobl gyfleoedd ardderchog i wneud yr hyn sydd o bwys iddynt. Mae tîm gweithgareddau a therapi ymrwymedig ar waith sy'n rhoi cymorth adsefydlu arbenigol gan gynnwys ffisiotherapi a rhaglenni ymarfer corff. Gwelsom ddyddiadur/bwrdd gweithgareddau prysur a gwelsom sawl gweithgaredd yn ystod yr arolygiad. Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol gan gynnwys ysgolion lleol. Yn ddiweddar, gwnaeth plant ymweld â'r cartref i ganu carolau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff y perthnasau eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref megis dosbarthiadau Tai Chi. Mae ymdeimlad prysur a gweithgar yn y gwasanaeth a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r holl weithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r cartref.

Mae systemau cadarn iawn ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed ac esgeulustod. Mae gan y bobl sydd heb y galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn ag agweddau ar eu gofal a'u cymorth a'u llety Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid priodol a chyfredol ar waith. Mae hyfforddiant ar ddiogelu yn hanfodol ar gyfer pob aelod o'r staff gofal yn y gwasanaeth ac mae'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn dangos gwybodaeth

dda am y gweithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd o ansawdd da, glân, cartrefol a diogel. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys ensuite, wedi'u haddurno'n dda, maent yn lân ac wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Mae'r bobl yn hoffi byw yn y cartref, ac roeddent yn sôn am eu hystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol mewn modd cadarnhaol. Gwelsom fod y drysau allanol i mewn ac allan o'r cartref yn ddiogel. Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n ardderchog, ac mae wedi'i addurno'n dda. Mae gweithiau pwysig wedi cael eu cwblhau yn y gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf gan gynnwys; addurno ac adnewyddu ardaloedd byw cymunedol, y lolfa a'r ardaloedd bwyta yn llwyr. Mae dwy ystafell wely newydd ensuite wedi cael eu hychwanegu hefyd. Gwnaethom edrych ar y gegin a'r ardaloedd paratoi bwyd a chawsom wybod bod y cartref wedi cael sgôr hylendid bwyd o bump (da iawn). Mae hyn yn golygu bod safonau uchel ar waith ar gyfer storio a thrin bwyd, a glendid. Mae gan staff y gegin wybodaeth dda am anghenion deietegol y bobl gan gynnwys anghenion arbenigol megis preswylwyr â diabetes neu anawsterau llyncu bwyd. Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r amrywiaeth o brydau bwyd a'r dewis a gynigir. Gwelsom y tir sydd mewn cyflwr da ac ardal synhwyraidd allanol sy'n cynnwys pwll pysgod uchel a llwybr newydd. Mae ardal swyddfa dan glo a gwelsom fod y ffeiliau gofal a staff wedi'u storio'n ddiogel. Mae gan y cartref gampfa benodedig a gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis seiclo ac addysg gorfforol dan oruchwyliaeth staff sydd wedi cael hyfforddiant. Mae ystafell synhwyraidd hefyd a gwelsom unigolyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau therapi cerddoriaeth â chydgysylltydd arbenigol aml-synhwyraidd.

Mae'r cartref yn cydymffurfio'n llawn â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae Cornel Cwtch yn y lolfa sy'n cynnwys llyfrau Cymraeg, posau, llyfrau, llyfrau coginio ac eitemau traddodiadol Cymraeg eraill. Mae pob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo laniard amlwg. Mae gan y cartref arwyddion dwyieithog ym mhob rhan ohono a chardiau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg hefyd. I ddatblygu ymhellach, mae'r darparwr yn bwriadu cyfieithu'r bwydlenni i'r Gymraeg.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau a'u dogfennu. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer gosodiadau nwy, gweithredu'r lifft, larymau tân, teclynnau codi a slingiau, a phrofi dyfeisiau cludadwy (PAT) ar waith. Gwelsom drefniadau goruchwylio manwl a chynhwysfawr o'r holl waith cynnal a chadw, damweiniau, prosesau rheoli heintiau, gweithdrefnau tân a materion iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom fod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol ac yn unol â rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (2002). Ceir ystafell golchi dillad ddynodedig, a chaiff eitemau brwnt eu cadw ar wahân i eitemau glân, yn unol â

phrosesau rheoli heintiau da. Caiff y larymau tân eu gwirio'n rheolaidd a chaiff y gwiriadau hyn eu dogfennu'n briodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau goruchwylio cyson ac effeithiol dros ben ar waith i oruchwylio ansawdd y gwasanaeth. Mae rheolwr ymrwymedig sy'n cael ei barchu'n fawr yn y swydd ac mae'r holl dîm o staff yn ei barchu ac yn ddiweddar mae wedi ennill gwobrau cenedlaethol. Caiff y rheolwr ei gefnogi gan ddirprwy profiadol sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Cânt eu cefnogi gan dîm o nyrsys, staff gofal a therapyddion angerddol ac ymrwymedig sydd eisiau gwneud y gorau ar gyfer y bobl. Mae'r tîm rheoli yn cynnal archwiliadau o systemau yn y gwasanaeth yn rheolaidd a chynhelir archwiliadau pellach gan dîm archwilio allanol y darparwr sy'n cynnwys iechyd a diogelwch. Cynhelir ymweliadau rheolaidd gan yr Unigolyn Cyfrifol. Gwelwyd adroddiadau yn dilyn yr ymweliadau hyn ac roedd manylion pellach i'w cynnwys yn yr adolygiadau o ansawdd y gofal manwl a thrylwyr sy'n cael eu creu dwy waith y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn o ansawdd uchel iawn sy'n cynnwys trefniadau goruchwylio manwl a dathliadau o gyflawniadau'r gwasanaeth yn ogystal â'r gwelliannau a nodwyd. Gwelsom fod y bobl, y perthnasau a'r staff yn cael eu cynnwys ac ymgynghorir â nhw mewn perthynas â phrosesau sicrhau ansawdd a chwblheir y camau gweithredu o ganlyniad. Mae hyn yn cynnwys llwybr sydd newydd gael ei osod o amgylch y cartref ac mae technegydd therapi ychwanegol wedi cael ei recriwtio. Mae prosesau goruchwylio da iawn o'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn mynd ati i chwilio am ffyrdd i wella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl a thrylwyr sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i arwain y staff. Mae'r Datganiad o Ddiben presennol yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad.

Mae gan y darparwr weinyddydd ymrwymedig ac adran adnoddau dynol i sicrhau bod y staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn briodol. Cawsom olwg ar wyth o ffeiliau'r staff a gwelsom fod y dogfennau gofynnol ar waith i recriwtio'n ddiogel, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r staff gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r sylwadau yn cynnwys; *“very well supported, we can ask for support – open door policy”* a *“brilliant, amazing any questions I can get an answer. Completed full induction, really helpful – online tests etc and very informative”.* Gwelsom fod y matrics hyfforddiant a bron pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant gorfodol diweddaraf y darparwr sy'n cynnwys symud a chynorthwyo'r bobl, rheoli heintiau, diogelwch bwyd, hyfywedd meinwe ac ati. Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff gofal yn ystod yr arolygiad a chael arolygon adborth yn electronig. Dywedodd bron pob aelod o'r staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hapus yn eu gwaith. Ar y cyfan, roedd yr adborth am weithio yn y gwasanaeth yn ardderchog, a phob ymateb yn dweud y byddent yn argymell gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn hawdd cael cymorth gan y darparwr ac mae'n cael ei gefnogi'n dda iawn gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru) ac mae'r nyrsys wedi cofrestru â Chyngor

Nyrsio a  Bydwreigiaeth (rheoleiddiwr nyrsio yng Nghymru). Ceir lefelau cydymffurfio da o ran cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau ar gyfer y staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Roedd un boeler wedi torri yn ystod yr arolygiad, ac roedd un boeler yn cael ei ddefnyddio. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/01/2024